

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Iau, 5 Chwefror 2015

Amser:

08.45

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Alun Davidson

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru

Agenda

Rhag-gyfarfod anffurfiol (08:45 – 09:00)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Cyfnod 2 – ystyried y gwelliannau (09:00–15:00) (Tudalennau 1 – 70)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, bydd y Pwyllgor yn gwaredu'r gwelliannau i'r Bil yn y drefn ganlynol:

Adrannau 1 – 3

Adrannau 5 – 56

Atodlenni 1–4

Adran 4

Teitl hir

Yn bresennol:

Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol



RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Well-being of Future Generations (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
 Amendments marked * are new or have been altered

Mae'r testun mewn italig wedi'i ddarparu gan y sawl a gynigiodd y gwelliant perthnasol i
 esbonio ei ddiben ac i gynorthwyo'r darlennydd. Nid yw'r testun yn rhan o eiriad y
 gwelliant.

The text in italics has been provided by the proposer of the relevant amendment to explain
 its purpose and to aid the reader's understanding. The text does not form part of the
 amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –

The Bill will be considered in the following order –

Section Nos. English	Rhifau adrannau Cymraeg
Sections 1- 3	Adrannau 1-3
Sections 5 - 56	Adrannau 5-56
Schedules 1-4	Atodlenni 1-4
Section 4	Adran 4
Long title	Teitl hir

Carl Sargeant

23

Page 1, line 8, leave out section 1.

Tudalen 1, llinell 8, hepgorer adran 1.

Antoinette Sandbach 120

Gyda chefnogaeth / Supported by: William Powell

Section 1, page 1, line 9, after 'of' at the second place where it appears, insert 'current and'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 9, ar ôl 'cenedlaethau'r', mewnosoder 'presennol a'r'.

Carl Sargeant 24

Page 1, line 12, leave out section 2.

Tudalen 1, llinell 11, hepgorer adran 2.

Carl Sargeant 25

Page 1, line 16, leave out section 3.

Tudalen 1, llinell 14, hepgorer adran 3.

Llyr Huws Gruffydd 160

To insert a new section –

[] Definition of sustainable development

In Wales, sustainable development means enhancing the economic, social and environmental well-being of people and communities, achieving a better quality of life for current and future generations:

- (a) in ways which promote social justice and equality of opportunity; and
- (b) in ways which enhance the natural and cultural environment and respect its limits - using only a fair share of the earth's resources and sustaining our cultural legacy.'.

I fewnosod adran newydd –

[] Diffiniad o ddatblygu cynaliadwy

Yng Nghymru, ystyr datblygu cynaliadwy yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol:

- (a) mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; a
- (b) mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac sy'n parchu ei derfynau - gan ddefnyddio cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear a chan gynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol. '.

Llyr Huws Gruffydd **161**

To insert a new section –

[] Definition of Well-being

In this Act, well-being means the well-being of Wales and its people as a whole, unless the context requires a more limited or specific interpretation.’.

I fewnosod adran newydd –

[] Diffiniad o Lesiant

Yn y Ddeddf hon, ystyr llesiant yw llesiant Cymru a'i phobl yn gyffredinol, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn am ddehongliad mwy cyfyngedig neu benodol. ’.

Llyr Huws Gruffydd **162**

To insert a new section –

[] Duty to have regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child

In exercising any function under this Act, a person must have regard to the requirements of Part 1 of the United Nations Convention on the Rights of the Child.’.

I fewnosod adran newydd –

[] Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Ddeddf hon, rhaid i berson roi sylw i ofynion Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.’.

Llyr Huws Gruffydd **26C**

As an amendment to amendment 26, line 2, after ‘social’, insert ‘cultural’.

Fel gwelliant i welliant 26, llinell 2, ar ôl 'cymdeithasol', mewnosoder ', diwylliannol'.

William Powell **26A**

As an amendment to amendment 26, line 3, after ‘of’, insert ‘all’.

Fel gwelliant i welliant 26, llinell 3, hepgorer 'y', a mewnosoder 'pob un o'r'.

William Powell **26B**

As an amendment to amendment 26, line 5, after ‘of’, insert ‘all’.

Fel gwelliant i welliant 26, llinell 5, hepgorer 'y', a mewnosoder 'pob un o'r'.

Llyr Huws Gruffydd

26D

As an amendment to amendment 26, line 7, after 'achieving', insert 'each of'.

Fel gwelliant i welliant 26, llinell 7, hepgorer 'y' a mewnosoder 'pob un o'r'.

Llyr Huws Gruffydd

26E

As an amendment to amendment 26, line 10, after 'principle', insert 'whether or not that relates to its well-being objectives'.

Fel gwelliant i welliant 26, llinell 11, ar ôl 'cynaliadwy', mewnosoder 'pa un a yw hynny'n ymwneud â'i amcanion llesiant ai peidio'.

Llyr Huws Gruffydd

26F

As an amendment to amendment 26, after line 14, insert -

'(6) In this Act, well-being means the well-being of Wales and its people as a whole, unless the context requires a more limited or specific interpretation.'

Fel gwelliant i welliant 26, ar ôl linell 15, mewnosoder -

'(6) Yn y Ddeddf hon, ystyr llesiant yw llesiant Cymru a'i phobl yn gyffredinol, oni bai bod y cyddestun yn gofyn am ddehongliad mwy cyfyngedig neu benodol.'

Carl Sargeant

26

To insert a new section –

'PART 2

Improving well-being

Well-being duty and sustainable development

[] Well-being duty on public bodies

- (1) Each public body must improve the economic, social and environmental well-being of Wales by contributing to the achievement of the well-being goals (see section [section to be inserted by amendment 27](1)).
- (2) A public body's contribution to the achievement of the well-being goals must include –
 - (a) setting and publishing objectives ("well-being objectives") that are designed to maximise its contribution to achieving those goals, and
 - (b) taking all reasonable steps (in exercising its functions) to meet those objectives.
- (3) Anything a public body does under this section must be done in accordance with the sustainable development principle.
- (4) A public body that exercises functions in relation to the whole of Wales may set objectives relating to Wales or any part of Wales.
- (5) A public body that exercises functions in relation only to a part of Wales may set objectives relating to that part or any part of it.'

I fewnosod adran newydd –

'RHAN 2

Gwella Llesiant

Dyletswydd Llesiant a datblygu cynaliadwy

[] Dyletswydd Llesiant ar gyrrff cyhoeddus

- (1) Rhaid i bob corff cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol ag amgylcheddol Cymru drwy gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant (gweler adran [sy'n cael ei mewnosod gan welliant 27](1)).
- (2) Rhaid i gyfraniad corff cyhoeddus at gyrraedd y nodau llesiant gynnwys –
 - (a) gosod a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sy'n cael eu cynllunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd y nodau hynny, a
 - (b) cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

- (3) Rhaid i unrhyw beth y mae corff cyhoeddus yn ei wneud o dan yr adran hon gael ei wneud yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- (4) Caiff corff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan osod amcanion mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.
- (5) Caiff corff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â rhan o Gymru yn unig osod amcanion mewn perthynas â'r rhan honno neu unrhyw ran ohoni.'

Llyr Huws Gruffydd

27F

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 6, column 2, leave out 'that makes more efficient and proportionate use of resources' and insert 'based upon a sustainable, efficient and proportionate share of resources within the limits of the carrying capacity of nature, in Wales and globally'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 6, colofn 2, hepgorer 'sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur' a mewnosoder ', sy'n seiliedig ar gyfran gynaliadwy, effeithlon a chymesur o adnoddau o fewn cyfyngiadau cynhwysedd cludo natur, yng Nghymru ac yn fyd-eang'.

Llyr Huws Gruffydd

27G

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 14, column 2, leave out 'uses natural resources in a way and at a rate that maintains and' and insert 'restores, maintains or'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 14, colofn 2, hepgorer 'defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn' a mewnosoder 'adfer, yn cynnal neu'n'.

William Powell

27A

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 16, column 2, leave out 'functioning ecosystems that support' and insert 'ecosystems functioning at a scale that supports'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 17, hepgorer 'gweithredol' a mewnosoder 'sy'n gweithredu ar raddfa'.

William Powell

27B

Gyda chefnogaeth / Supported by: Antoinette Sandbach

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 18, column 2, leave out 'and' and insert 'yet retains'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 19, colofn 2, hepgorer 'ynghyd â'r' a mewnosoder 'ond sy'n cadw'r'.

William Powell

27C

Gyda chefnogaeth / Supported by: Antoinette Sandbach

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 29, column 2, after 'communities', insert 'each with its distinctive sense of place'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 28, colofn 2, ar ôl 'da', mewnosoder ', a phob un â'i hymdeimlad arbennig o le'.

Llyr Huws Gruffydd

27H

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 30, column 2, after 'that', insert 'at every level, from the community to the Welsh level,'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 29, colofn 2, hepgorer 'sy'n' a mewnosoder 'sydd ar bob lefel, o'r gymuned i lefel Cymru, yn'.

William Powell

27D

Gyda chefnogaeth / Supported by: Antoinette Sandbach

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 31, column 2, after 'language', insert 'values its identity and traditions'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 30, colofn 2, ar ôl 'Gymraeg', mewnosoder ', sy'n gwerthfawrogi ei hunaniaeth a'i thraddodiadau'.

Llyr Huws Gruffydd

27I

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 35, column 2, leave out 'economic, social and environmental'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 34, colofn 2, hepgorer 'economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol'.

Llyr Huws Gruffydd

27J

As an amendment to amendment 27, Table 1, line 36, column 2, leave out 'takes account of the contribution it is making to global well-being' and insert 'makes a positive contribution to global wellbeing taking account of its cumulative impacts'.

Fel gwelliant i welliant 27, Tabl 1, llinell 35, colofn 2, hepgorer 'ystyried y cyfraniad y mae'n ei wneud at lesiant byd-eang' a mewnosoder 'gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang gan ystyried ei heffeithiau cronol'.

William Powell

27E

As an amendment to amendment 27, line 38, leave out subsections (2) to (5).

Fel gwelliant i welliant 27, llinell 37, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (5).

Carl Sargeant

27

To insert a new section –

{ [] The well-being goals

(1) The well-being goals are listed and described in Table 1 –

TABLE 1

Goal	Description of the goal
A prosperous Wales.	An innovative, productive and low carbon society that makes more efficient and proportionate use of resources (including taking action to deal with the causes of climate change); and which develops a skilled and well-educated population in an economy which generates wealth and provides employment opportunities, allowing people to take advantage of the wealth generated through securing decent work.
A resilient Wales.	A nation which uses natural resources in a way and at a rate that maintains and enhances a biodiverse natural environment with healthy functioning ecosystems that support social, economic and ecological resilience and the capacity to adapt to change (for example climate change).
A healthier Wales.	A society in which people's physical and mental well-being is maximised and in which choices and behaviours that benefit future health are understood.
A more equal Wales.	A society that enables people to fulfil their potential no matter what their background or circumstances.
A Wales of cohesive communities.	Attractive, viable, safe and well-connected communities.
A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language.	A society that promotes and protects culture, heritage and the Welsh language, and which encourages people to participate in the arts, and sports and recreation.
A globally responsible Wales.	A nation which, when doing anything to improve the economic, social and environmental well-being of Wales, takes account of the contribution it is making to global well-being.

(2) The Welsh Ministers may by regulations amend Table 1 by –

- (a) adding a goal,
- (b) removing a goal, or
- (c) amending the title or description of a goal.

(3) Before making regulations under subsection (2), the Welsh Ministers must consult the

following persons on a draft of the regulations –

- (a) the Commissioner;
 - (b) the other public bodies;
 - (c) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.
- (4) The Welsh Ministers must –
- (a) allow the consulted persons a period of at least 12 weeks to submit comments on the draft regulations,
 - (b) consider any comments submitted within that period, and
 - (c) publish a summary of those comments.
- (5) A draft of a statutory instrument containing regulations under subsection (2) must, when laid before the National Assembly, be accompanied by a statement from the Welsh Ministers giving details of any differences between the regulations in the draft instrument and the draft regulations consulted on under subsection (3).'

I fewnosod adran newydd –

[] Y nodau llesiant

- (1) Mae'r nodau llesiant wedi eu rhestru a'u disgrifio yn Nhabl 1 –

TABLE 1

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus.	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a chymesur (gan gynnwys cymryd camau i ddelio gydag achosion newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith boddhaol.
Cymru gydnerth.	Cenedl sy'n defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach.	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal.	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â

	chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn ystyried y cyfraniad y mae'n ei wneud at lesiant byd-eang.

- (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio Tabl 1 drwy –
- ychwanegu nod,
 - tynnu nod ymaith, neu
 - diwygio teitl nod neu ddisgrifiad o nod.
- (3) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau canlynol ar ddrafft o'r rheoliadau –
- y Comisiynydd;
 - y cyrff cyhoeddus eraill;
 - pa bynnag bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru –
- caniatáu cyfnod o 12 wythnos o leiaf i'r personau yr ymgynghorwyd â hwy gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau drafft,
 - ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir o fewn y cyfnod hwnnw, ac
 - cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau hynny.
- (5) Pan osodir drafft o offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan is-adran (2) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru sy'n rhoi manylion unrhyw wahaniaethau rhwng y rheoliadau yn yr offeryn drafft a'r rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt o dan is-adran (3) fynd gydag ef.'.

Carl Sargeant

28

Section 5, page 2, line 32, leave out 'Parts 2 and' and insert 'Part'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 34, hepgorer 'Rhannau 2 a' a mewnosoder 'Rhan'.

Carl Sargeant

29

Page 3, line 21, leave out section 6.

Tudalen 3, llinell 22, hepgorer adran 6.

Llyr Huws Gruffydd

30B

As an amendment to amendment 30, line 4, leave out 'seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs' and insert 'enhances the economic, social, cultural and environmental wellbeing of people and communities, achieving a better quality of life for current and future generations:

- (a) in ways which promote social justice and equality of opportunity; and
- (b) in ways which enhance the natural and cultural environment and respect its limits - using only a fair share of the earth's resources and sustaining our cultural legacy'.

Fel gwelliant i welliant 30, llinell 4, hepgorer 'ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau' a mewnosoder 'gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol:

- (a) mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; a
- (b) mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac sy'n parchu ei derfynau - gan ddefnyddio cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear a chan gynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol'.

William Powell

30A

As an amendment to amendment 30, line 5, after 'needs' insert 'and includes application of the principles of living within environmental limits, using natural resources prudently, avoiding adverse international impacts, combating climate change, reducing greenhouse gas emissions, and promoting and facilitating the use of the Welsh language, and protecting and enhancing Wales' natural environment'.

Fel gwelliant i welliant 30, llinell 5, ar ôl 'hwythau', mewnosoder 'ac mae'n cynnwys defnyddio egwyddorion o fyw o fewn terfynau amgylcheddol, defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth, osgoi effeithiau andwyol rhyngwladol, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, a diogelu a gwella amgylchedd naturiol Cymru'.

Llyr Huws Gruffydd

30C

As an amendment to amendment 30, line 11, after 'objectives', insert 'and steps taken to meet them'.

Fel gwelliant i welliant 30, llinell 12, ar ôl 'corff', mewnosoder 'a'r camau a gymerir i'w cyflawni'.

Llyr Huws Gruffydd

30D

As an amendment to amendment 30, line 12, after 'goals', insert ',in particular where steps taken by the body may contribute to meeting an objective but may have a detrimental impact on any well-being goal'.

Fel gwelliant i welliant 30, llinell 13, ar ôl 'llesiant', mewnosoder ', yn arbennig pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni amcan ond y gall fod yn niweidiol i gyflawni unrhyw amcan llesiant'.

Llyr Huws Gruffydd

30E

As an amendment to amendment 30, after line 24, insert –

- '(f) Of the latest evidence and advice published by the Welsh Ministers under section 12 (2) (c);
- (g) the application of the precautionary principle in meeting the bodies' objectives.'

Fel gwelliant i welliant 30, ar ôl linell 25, mewnosoder –

- '(f) y dystiolaeth a'r cyngor diweddaraf a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 (2) (c);
- (g) y defnydd o'r egwyddor ragofalus wrth gyflawni amcanion y cyrff.'

Carl Sargeant

30

To insert a new section –

[] The sustainable development principle

- (1) In this Act, any reference to a public body doing something “in accordance with the sustainable development principle” means that the body must act in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.
- (2) In order to act in that manner, a public body must take account of the following things –
 - (a) the importance of balancing short term needs with the need to safeguard the ability to meet long term needs, especially where things done to meet short term needs may have detrimental long term effect;
 - (b) the need to take an integrated approach, by considering how –
 - (i) the body’s well-being objectives may impact upon each of the well-being goals;
 - (ii) the body’s well-being objectives impact upon each other or upon other public bodies’ objectives, in particular where steps taken by the body may contribute to meeting one objective but may be detrimental to meeting another;
 - (c) the importance of involving other persons with an interest in achieving the well-being goals;
 - (d) how acting in collaboration with any other person (or how different parts of the body acting together) could assist the body to meet its well-being objectives, or assist another body to meet its objectives;
 - (e) how deploying resources to prevent problems occurring or getting worse may contribute to meeting the body’s well-being objectives, or another body’s objectives.’.

I fewnosod adran newydd –

[] Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

- (1) Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at y ffaith bod corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth “yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy” yn golygu bod yn rhaid i’r corff weithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- (2) Er mwyn gweithredu yn y modd hwn, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y pethau canlynol –
 - (a) pwysigrwydd cydbwysu anghenion y tymor byr gyda’r angen i ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor, yn enwedig pan allai pethau a wneir i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith niweidiol yn yr hirdymor;
 - (b) yr angen i gymryd ymagwedd integredig, drwy ystyried –
 - (i) ym mha ffordd y gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o’r

nodau llesiant;

- (ii) effaith amcanion llesiant y corff ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn arbennig pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond y gall fod yn niweidiol i gyflawni un arall;
- (c) pwysigrwydd cynnwys personau eraill sydd â buddiant mewn cyrraedd y nodau llesiant;
- (d) ym mha ffordd y gallai cydlafurio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff yn gweithio ar y cyd) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion;
- (e) ym mha ffordd y gallai defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff neu amcanion corff arall'.

William Powell

100

Section 6, page 3, line 21, after 'achieve', insert 'all of'.

Adran 6, tudalen 3, llinell 22, hepgorer 'y' yn yr ail le y mae'n ymddangos a mewnosoder 'pob un o'r'.

William Powell

101

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Antoinette Sandbach

Section 6, page 4, Table 1, line 9, column 2, after 'communities', insert 'each with its distinctive sense of place'.

Adran 6, tudalen 4, Tabl 1, llinell 9, colofn 2, ar ôl 'da', mewnosoder 'a phob un â'i hymdeimlad arbennig o le'.

William Powell

102

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Antoinette Sandbach

Section 6, page 4, Table 1, line 11, column 2, after 'language', insert 'values its identity and traditions'.

Adran 6, tudalen 4, Tabl 1, llinell 11, colofn 2, ar ôl 'Gymraeg', mewnosoder 'sy'n rhoi gwerth ar ei hunaniaeth a'i thraddodiadau,'.

William Powell

103

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Antoinette Sandbach

Section 6, page 4, line 16, leave out subsections (3) to (4).

Adran 6, tudalen 4, llinell 16, hepgorer is-adrannau (3) hyd at (4).

Russell George

119

Gyda chefnogaeth / Supported by: William Powell

Section 6, page 4, line 20, leave out subsection (4) and insert –

- '(4) Before making regulations under this section, the Welsh Ministers must carry out the following steps.
- (5) The Welsh Ministers must consult –
 - (a) such persons as appear to them likely to be affected by the regulations,
 - (b) such organisations as appear to them to represent the interests of persons likely to be affected by the regulations, and
 - (c) such other persons as they consider appropriate, on the proposed draft regulations.
- (6) The Welsh Ministers must –
 - (a) allow those persons a period of at least 12 weeks to submit comments on the proposed draft regulations,
 - (b) consider any comments submitted within that period, and
 - (c) publish a summary of those comments.
- (7) The Welsh Ministers must lay a draft of the regulations before the National Assembly for Wales.
- (8) Draft regulations laid under subsection (7) –
 - (a) must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of any differences between the draft regulations consulted on under subsection (5) and the draft regulations laid under subsection (7), and
 - (b) may not be approved by a resolution of the National Assembly for Wales in accordance with section 53(4) until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the draft regulations are laid.'

Adran 6, tudalen 4, llinell 20, hepgorer is-adran (4) a mewnosoder –

- '(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau a ganlyn.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y rheoliadau drafft arfaethedig â'r canlynol –
 - (a) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt fod y rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt,
 - (b) unrhyw sefydliadau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, ac
 - (c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) rhoi cyfnod o 12 wythnos o leiaf i'r personau hynny i gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau drafft arfaethedig,

- (b) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir o fewn y cyfnod hwnnw, ac
 - (c) cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau hynny.
- (7) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (8) O ran y rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (7) –
- (a) rhaid iddynt fynd gyda datganiad gan Weinidogion Cymru yn rhoi manylion unrhyw wahaniaethau rhwng y rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt o dan is-adran (5) a'r rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (7), a
 - (b) ni chaniateir iddynt gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 53(4) tan ar ôl i'r cyfnod o 60 niwrnod, yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y rheoliadau drafft, ddod i ben.'.

Llyr Huws Gruffydd

163

Section 6, page 4, after line 23, insert –

- '(5) Before making an order under section 6(3), the Welsh Ministers must consult –
- (a) the Commissioner;
 - (b) the other public bodies; and
 - (c) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.
- (6) If, following consultation under subsection (1), the Welsh Ministers propose to make an order under section 6(3), they must lay before the National Assembly a document explaining their proposals and, in particular –
- (a) explaining how those proposals would contribute to the pursuit of the common aim;
 - (b) giving details of the consultation under subsection (1) and their response; and
 - (c) setting out their proposals in the form of a draft order.
- (7) Where a document relating to proposals is laid before the National Assembly for Wales under subsection (2), a draft of an order under section 6(3) to give effect to the proposals (with or without modification) must not be laid before the Assembly until after the expiry of the period of sixty days beginning with the day on which the document was laid.
- (8) In calculating the period mentioned in subsection (3) no account shall be taken of any time during which the National Assembly is dissolved or is in recess for more than four days.
- (9) In preparing a draft order under section 3, the Welsh Ministers must consider any representations made during the period mentioned in subsection (3).
- (10) A draft order laid before the National Assembly in accordance with subsection (5) must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of –
- (a) any representations considered in accordance with subsection (5), and
 - (b) any changes made to the proposals contained in the document laid before the National Assembly under subsection (2) above.
- (11) Approval of the draft order will be subject to an affirmative resolution by the National Assembly.'

Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- '(5) Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 6(3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) y Comisiynydd
 - (b) y cyrff cyhoeddus eraill; ac
 - (c) pa bersonau bynnag eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.
- (6) Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori o dan is-adran (1), yn cynnig gwneud gorchymyn o dan adran 6(3), rhaid iddynt osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ddogfen sy'n esbonio eu cynigion ac sydd, yn benodol –

- (a) yn esbonio sut y byddai'r cynigion hynny yn cyfrannu at ymgyrhaedd at y bwriad cyffredin;
 - (b) yn rhoi manylion yr ymgynghoriad o dan is-adran (1) a'u hymatebion; ac
 - (c) yn nodi eu cynigion ar ffurf gorchymyn drafft.
- (7) Os gosodir dogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud â chynigion o dan is-adran (2), ni chaniateir gosod gorchymyn drafft o dan adran 6(3) i roi effaith i'r cynigion (wedi neu heb eu haddasu) gerbron y Cynulliad hyd oni fydd cyfnod o drigain o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod y gosodwyd y ddogfen wedi dod i ben.
- (8) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3) nid yw unrhyw amser pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i ddiddymu neu pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol mewn cyfnod o doriad o fwy na phedwar diwrnod i'w gyfrif.
- (9) Wrth baratoi gorchymyn drafft o dan adran 3, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3).
- (10) Rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru fynd gyda gorchymyn drafft a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag is-adran (5) a rhaid i'r datganiad hwnnw gan Weinidogion Cymru roi manylion am –
- (a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (5) a
 - (b) unrhyw newidiadau a wneir i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan is-adran (2) uchod.
- (11) Bydd cymeradwyo'r gorchymyn drafft yn ddarostyngedig i benderfyniad cadarnhaol gan y Cynulliad Cenedlaethol.'

Carl Sargeant

31

Section 7, page 4, line 26, leave out subsection (1).

Adran 7, tudalen 4, llinell 28, hepgorer is-adran (1).

William Powell

104

Section 7, page 4, line 27, after 'of', insert 'all of'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 29, hepgorer 'y' a mewnosoder 'pob un o'r'.

Carl Sargeant

32

Section 7, page 4, leave out lines 32 to 33 and insert –

- '(b) explaining why the public body considers it has set well-being objectives in accordance with the sustainable development principle (including how the body proposes to involve other persons with an interest in achieving the well-being goals);
- (c) setting out the steps the public body proposes to take to meet those objectives in accordance with the principle (including how it proposes to govern itself, how it will keep the steps under review and how it proposes to ensure that resources are allocated annually for the purpose of taking such steps);'.

Adran 7, tudalen 4, hepgorer llinellau 34 hyd at 37 a mewnosoder –

- '(b) egluro pam y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried ei fod wedi gosod amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gan gynnwys sut y mae'r corff yn bwriadu cynnwys personau eraill sydd â buddiant mewn cyrraedd y nodau llesiant);
- (c) nodi'r camau y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny yn unol â'r egwyddor (gan gynnwys sut y mae'n bwriadu ei lywodraethu ei hun, sut y bydd yn parhau i adolygu'r camau a sut y mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n flynyddol at ddiben cymryd camau o'r fath);'.

Carl Sargeant

33

Section 7, page 5, line 4, leave out 'actions' and insert 'steps'.

Adran 7, tudalen 5, llinell 4, hepgorer 'y gweithredoedd a bennir' a mewnosoder 'cymryd y camau'.

Carl Sargeant

34

Section 7, page 5, line 5, leave out subsections (3) to (4).

Adran 7, tudalen 5, llinell 5, hepgorer is-adrannau (3) hyd at (4).

Carl Sargeant

35

Page 5, line 13, leave out section 8.

Tudalen 5, llinell 13, hepgorer adran 8.

William Powell

105

Section 8, page 5, line 24, leave out 'impact upon' and insert 'help achieve'.

Adran 8, tudalen 5, llinell 24, hepgorer 'effeithio ar bob' a mewnosoder 'helpu i gyflawni pob'.

Antoinette Sandbach 122

Section 9, page 6, line 19, leave out subsection (5).
Adran 9, tudalen 6, llinell 20, hepgorer is-adran (5).

Antoinette Sandbach 123

Section 9, page 6, line 20, leave out 'or (5)'.
Adran 9, tudalen 6, llinell 22, hepgorer 'neu (5)'.

Antoinette Sandbach 124

Section 9, page 6, line 22, leave out 'or (5)'.
Adran 9, tudalen 6, llinell 24, hepgorer 'neu (5)'.

William Powell 106

Section 11, page 7, line 11, after 'indicators', insert 'and targets'.
Adran 11, tudalen 7, llinell 12, ar ôl 'Dangosyddion', mewnosoder 'a thargedau'.

Antoinette Sandbach 125

Section 11, page 7, line 13, leave out 'publish' and insert 'prepare draft'.
Adran 11, tudalen 7, llinell 14, hepgorer 'cyhoeddi dangosyddion' a mewnosoder 'paratoi dangosyddion drafft'.

Llyr Huws Gruffydd 164

Section 11, page 7, line 13, after 'indicators')' at the second place where it appears, insert 'and well-being targets ("national targets")'.
Adran 11, tudalen 7, llinell 14, ar ôl 'cenedlaethol')', mewnosoder 'a thargedau llesiant ("targedau cenedlaethol")'.

Llyr Huws Gruffydd 165

Section 11, page 7, line 13, leave out 'may' and insert 'must'.
Adran 11, tudalen 7, llinell 14, hepgorer 'gellir' a mewnosoder 'mae'n rhaid'.

William Powell 107

Section 11, page 7, line 13, after 'indicators', insert 'and targets'.
Adran 11, tudalen 7, llinell 14, ar ôl 'dangosyddion', mewnosoder 'a thargedau'.

Antoinette Sandbach

126

Section 11, page 7, line 15, leave out 'copy' and insert 'draft'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 16, hepgorer 'copi' a mewnosoder 'drafft'.

Antoinette Sandbach

127

Section 11, page 7, after line 15, insert—

'(c) publish the draft approved by the National Assembly.'

Adran 11, tudalen 7, ar ôl llinell 16, mewnosoder—

'(c) cyhoeddi'r drafft a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.'

Antoinette Sandbach

128

Gyda chefnogaeth/ Supported by: William Powell

Section 11, page 7, line 15, after 'Assembly', insert 'for its approval'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 16, ar ôl 'Cenedlaethol' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder 'i'w gymeradwyo ganddo'.

Llyr Huws Gruffydd

166

Section 11, page 7, line 15, after 'indicators', insert 'and targets'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 16, ar ôl 'dangosyddion', mewnosoder 'a thargedau'.

Llyr Huws Gruffydd

167

Section 11, page 7, after line 21, insert –

- '(3) National targets-
- (a) must be expressed as a value or characteristic that can be measured quantitatively or qualitatively;
 - (b) must be consistent with the national indicators published by the Welsh Ministers under section 12(2);
 - (c) may be measured over the same period as national indicators or such other period as the Welsh Ministers consider appropriate;
 - (d) may be measureable in relation to Wales, or any part of Wales.
- (4) Specific matters in respect of which the Welsh Ministers must set national targets should include greenhouse gas emissions.'

Adran 11, tudalen 7, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- '(3) O ran targedau cenedlaethol-
- (a) rhaid iddynt gael eu mynegi fel gwerth y gellir ei fesur neu nodwedd y gellir ei mesur, yn feintiol neu'n ansoddol;
 - (b) rhaid iddynt fod yn gyson â'r dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 12(2);
 - (c) caniateir eu mesur dros yr un cyfnod â dangosyddion cenedlaethol neu unrhyw gyfnod ag y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol;
 - (d) caniateir eu mesur mewn perthynas â Chymru, neu unrhyw ran o Gymru.
- (4) Dylai'r materion penodol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru osod targedau cenedlaethol mewn perthynas â hwy gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr.'

Antoinette Sandbach

129

Gyda chefnogaeth / Supported by: William Powell

Section 11, page 7, line 27, leave out subsection (5).

Adran 11, tudalen 7, llinell 28, hepgorer is-adran (5).

Antoinette Sandbach

130

Section 11, page 7, line 28, leave out 'or (5)'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 31, hepgorer 'neu (5)'.

Antoinette Sandbach

131

Section 11, page 7, line 30, leave out –

- '(a) publish the indicators as revised, and
- (b) lay a copy of them before'

and insert –

- '(a) lay a draft before the National Assembly for approval by it; and
- (b) publish the draft approved by'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 32, hepgorer –

- '(a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd, a
- (b) gosod copi ohonynt gerbron'

a mewnosoder –

- '(a) gosod drafft gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w gymeradwyo ganddo; a
- (b) cyhoeddi'r drafft a gymeradwywyd gan'.

Antoinette Sandbach

132

Section 11, page 7, line 32, leave out 'publishing' and insert 'preparing'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 34, hepgorer 'cyhoeddi' a mewnosoder 'paratoi'.

Antoinette Sandbach

133

Section 11, page 7, line 33, leave out 'or (5)'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 35, hepgorer 'neu (5)'.

Antoinette Sandbach

134

Gyda chefnogaeth/ Supported by: William Powell

Section 11, page 7, after line 34, insert –

- '(b) the Office of National Statistics;'

Adran 11, tudalen 7, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- '(b) y Swyddfa Ystadegau Gwladol;'

Antoinette Sandbach

135

Section 11, page 7, after line 36, insert –

- '(8) A resolution to approve national indicators under subsections (1)(b) or (6)(b) has no effect unless at least two-thirds of the Members voting support the motion.'

Adran 11, tudalen 7, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- '(8) Ni fydd penderfyniad i gymeradwyo dangosyddion cenedlaethol o dan is-adrannau (1) (b) neu (6)(b) yn cael unrhyw effaith oni bai bod o leiaf dwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn cefnogi'r cynnig.'

William Powell

108

Section 11, page 8, after line 6, insert –

- '(10) Any reference in this section to a national indicator or national indicators includes reference to a target or targets published under subsection (1).
- (11) Targets under this section must include the following –
- (a) the reduction of greenhouse gas emissions from Wales by 40% by 2020 and 75% by 2030;
 - (b) decarbonising the power sector by 2030 to no higher than 50KwH;
 - (c) halving total energy demand in Wales by 2030 by improving energy efficiency in domestic, commercial, service and public sector buildings.'

Adran 11, tudalen 8, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

- '(10) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at ddangosydd cenedlaethol neu ddangosyddion cenedlaethol yn cynnwys cyfeiriad at darged neu dargedau a gyhoeddir o dan is-adran (1).
- (11) Rhaid i dargedau o dan yr adran hon gynnwys y canlynol –
- (a) lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru 40% erbyn 2020 a 75% erbyn 2030;
